# Helpu'r Amgylchedd - Holiadur Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru



## Comisiynydd Plant Cymru

## Tachwedd 2024

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

## Cyflwyniad

Yn ystod mis Tachwedd 2024 buon ni’n gofyn barn plant a phobl ifanc sut maen nhw’n helpu’r amgylchedd yn eu cartref, yn yr ysgol, ac yn eu cymuned, a pha mor ymwybodol ydyn nhw o weithredai lleol a chenedlaethol o fewn / yn y maes hwn.

Roedd yr holiadur yn rhan o gyfres o gwestiynau ar wahanol bynciau rydyn ni’n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis, dan yr enw Mater y Mis, er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o bethau. Cafodd ei rannu’n uniongyrchol â’r holl ysgolion sy’n rhan o’n cynlluniau hawliau plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â grwpiau cymunedol.

Fel rhan o becyn yr holiadur, dangoswyd fideo i’r plant a’r bobl ifanc, yn cyflwyno’r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau fel beth maen nhw’n ei wneud gartref i helpu’r amgylchedd, a’u hymwybyddiaeth o fentrau lleol a chenedlaethol a’u cyfranogiad i helpu’r amgylchedd. Yn yr amlinelliad ar gyfer y sesiwn, roedden ni’n awgrymu, ar ôl gweld y fideo, y dylai plant a phobl ifanc gael amser i drafod eu barn gyda’i gilydd cyn ateb yr holiadur. Roedd gan ysgolion ddau opsiwn ar gyfer cwblhau’r holiadur; gallai plant a phobl ifanc ei wneud yn annibynnol, neu gallai athro gwblhau’r holiadur ar ran y grŵp, gan ateb set wahanol o gwestiynau i roi trosolwg o’r drafodaeth.

Atebodd 494 o blant a phobl ifanc yr holiadur yn unigol. Bu 626 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o’u barn. Cymerodd ystod eang o oedrannau ran, o blant o dan 6 i rai at 18 oed. Derbyniwyd ymatebion gan ysgolion a grwpiau o fewn 16 awdurdod lleol.

Datblygwyd y cwestiynau gan dîm staff profiadol y Comisiynydd ar sail themâu oedd wedi dod i’r amlwg mewn ymarferion ymgysylltu blaenorol gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

# Cwestiynau i'r plant a bobl ifanc

**Beth wyt ti a dy deulu/gofalwyr yn gwneud adref i helpu yr amgylchedd / newid hinsawdd?**

Ail-ddefnyddio bagiau siopa (371) - 74%
Troi goleuadau i ffwrdd (360) - 72%
Defnyddio bin gwastraff bwyd (360) - 72%
Troi pethau electronig i ffwrdd yn y nôs, er enghraifft y teledu (298) - 59%
Defnyddio llai o ddŵr (222) - 44%
Trio prynu mwy o fwyd lleol (fel cig a llysiau) (176) - 35%
Prynu bwyd gyda llai o blastig o'u cwmpas (fel prynu bananas sydd ddim mewn bag plastig) (163) - 30%
Cerdded/seiclo/sgwtio i'r ysgol yn lle defnyddio car (151) - 30%
Newid yr hyn rydych chi'n bwyta (74) - 15%
Defnyddio mwy o drafnidiaeth cyhoeddus fel y trên ar fws (73) - 15%
Rhywbeth arall (35) - 7%
Dwi ddim yn gwybod (27) - 5%
Dydy fy nheulu ddim yn gwneud unrhywbeth yn benodol ar hyn o bryd (3) - 1%

**Beth ydy dy ysgol/grŵp cymunedol yn gwneud yn barod i helpu'r amgylchedd?**

Ailgylchu (387) - 77%
Defnyddio bin gwastraff bwyd (303) - 60%
Grwpiau/pwyllgorau eco (291) - 58%
Casglu sbwriel (281) - 56%
Troi goleuadau i ffwrdd (252) - 50%
Annog chi i gerdded, seiclo, neu sgwtio i'r ysgol, neu mynd ar drên neu fws (220) - 44%
Newid y bwydlen cinio (178) - 35%
Lleihau plastig un-tro (99) - 20%
Dwi ddim yn gwybod (40) - 8%
Rhywbeth arall (19%) - 4%
Dydy fy ysgol/grŵp cymunedol ddim yn gwneud unrhywbeth penodol ar hyn o bryd (5) - 1%

**Oes yna unrhywbeth hoffech chi bod yr ysgol/grŵp yn gwneud mwy ohonno fe?**

Pigo sbwriel i fyny (152) - 31%
Newid y bwydlen cinio (125) - 25%
Troi goleuadau i ffwrdd (125) - 25%
Ailgylchu (116) - 24%
Dwi ddim yn gwybod (111) - 23%
Lleihau plastig un-tro (110) - 22%
Defnyddio bin gwastraff bwyd (108) - 22%
Annog chi i gerdded, seiclo, neu sgwtio i'r ysgol, neu mynd ar drên neu fws (100) - 20%
Grwpiau/pwyllgorau eco (67) - 14%
Dydy fy ysgol/grwp cymunedol ddim yn gwneud unrhywbeth penodol ar hyn o bryd (29) - 6%
Rhywbeth arall (24) - 5%

**Oes unrhyw beth rwyt ti'n falch bod yr ysgol/grŵp cymunedol yn ei wneud? Hoffet ti ddweud mwy am hyn?**

Na hoffwn (363) - 74%
Hoffwn (130) - 26%

**Beth ydy'r ysgol/grŵp yn ei wneud?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Ailgylchu
- Tyfu bwyd eu hunain
- Pigo sbwriel i fyny

**Wyt ti'n gwybod beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu'r amgylchedd?**

Dwi ddim yn gwybod (238) - 47%
Nac ydw (165) - 33%
Ydw (100) - 20%

**Beth wyt ti wedi clywed amdano?**

Y nifer uchaf o ymatebion y cyfeirir atynt yw i leihau'r defnydd o fagiau plastig

**Sut fyddet ti'n darganfod mwy am beth mae Cymru yn ei wneud i helpu'r amgylchedd?**

Y newyddion (251) - 51%
Gwersi yn yr ysgol (222) - 45%
Rhieni/teulu (147) - 30%
Cyfryngau cymdeithasol (123) - 25%
Edrych arlein (117) - 24%
Dwi ddim yn edrych/dwi ddim â diddordeb (73) - 15%
Arall (17) - 3%

**Wyt ti'n gwybod am unrhyw grwpiau o bobl sy'n ceisio helpu'r hinsawdd/yr amgylchedd? Gallai hwn fod yn grŵp o fewn dy ysgol neu gymuned leol neu grwp cenedlaethol/byd-eang.**

Dwi ddim yn gwybod (206) - 42%
Ydw (161) - 33%
Nac ydw (126) - 26%

**Pa grwpiau wyt ti wedi clywed amdanyn nhw?**

Roedd y nifer uchaf o ymatebion yn cyfeirio at grwpiau/cynghorau eco yr ysgol.
Wyt ti'n cymryd rhan mewn unrhyw grwpiau sy'n helpu'r amgylchedd?
Nac ydw (285) - 58%
Ydw (131) - 27%
Dwi ddim yn gwybod (78) - 16%

**Hoffet ti fod yn rhan o grŵp fel hyn?**

Nac ydw (103) - 36%
Dwi ddim yn gwybod (92) - 32%
Ydw (89) - 31%

**Wyt ti'n teimlo bod gennyt ti ddigon o wybodaeth i helpu'r amgylchedd, a beth allet ti ei wneud i wneud gwahaniaeth?**

Ydw (230) - 46%
Dwi ddim yn gwybod (144) - 29%
Nac ydw (61) - 12%
Does gen i ddim diddordeb (60) - 12%

# <u>Cwestiynau i athrawon</u>

Pan ymatebodd athrawon neu arweinwyr grŵp ar ran y grŵp, roedd eu atebion yn adleisio'r atebion a roddwyd gan blant yn uniongyrchol. Hefyd gofynnwyd cwestiwn i athrawon yn gofyn iddynt roi eu barn broffesiynol eu hunain ar y mater:

**A oes gennych y wybodaeth rydych chi ei angen am y mater hwn i'w rhannu â phlant a phobl ifanc a hwyluso trafodaethau?**

Roedd rhan fwyaf o athrawon yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth.

## Diweddglo

- O'r canfyddiadau, mae'n amlwg bod plant a phobl ifanc ledled Cymru yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi'r amgylchedd.
- O ystyried bod bron i hanner (45%) y plant a'r bobl ifanc wedi dweud eu bod yn cael gafael ar eu gwybodaeth am y pwnc hwn o wersi yn yr ysgol, mae'n galonogol bod athrawon wedi dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt yr wybodaeth i rannu gwybodaeth gyda phlant a phobl ifanc ar y pwnc hwn ac i hwyluso trafodaethau.
- Hoffai 31% o blant a phobl ifanc sy'n cyfranogi gymryd rhan mewn grŵp sy'n helpu'r amgylchedd, fodd bynnag, ymatebodd 42% "Nid wyf yn gwybod" pan ofynnwyd iddynt os/a oeddent yn gwybod am unrhyw grwpiau sy'n cefnogi’r amgylchedd, ac ymatebodd 47% yn yr un ffordd pan ofynnwyd iddynt os/a oeddent yn gwybod beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu'r amgylchedd. O ystyried y canfyddiadau hyn, byddai gwybodaeth sy'n gyfeillgar i blant am y camau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru, a chyfleoedd i weithredu i helpu'r amgylchedd yn ddefnyddiol i hyrwyddo gweithredu yr hinsawdd ymhellach.
- Dim ond 15% o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg hwn a dywedodd eu bod wedi defnyddio 'mwy o drafnidiaeth gyhoeddus' i helpu'r amgylchedd. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd galwadau Comisiynydd Plant Cymru am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl dan 18 oed, nid yn unig i liniaru tlodi, ond hefyd i gyflwyno ymddygiadau gydol oes mewn perthynas â thrafnidiaeth gall fod o fudd i'r amgylchedd.